# Y Trydydd Cynulliad – Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (229)

**Dyddiad: Dydd Mercher 17 Tachwedd 2010**
**Amser: 13.30**

Enwebwyd William Graham yn Ddirprwy Lywydd dros dro am weddill y cyfarfod.

**13.30**
**Eitem 1: Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb**
Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiynau 4 a 7 yn ôl.

**.........................................**

**14.09**
**Eitem 2: Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth**
Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf.

**.........................................**

**14.50**
**Eitem 3: Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad**
Gofynnwyd y cwestiynau.

**.........................................**

**14.57**
**Eitem 4: Cynnig i benodi Comisiynydd Safonau**

**NDM4584 Jeff Cuthbert (Caerffili)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn mynegi ei ddiolchgarwch am gyfraniad Richard Penn yn ystod yr un mlynedd ar ddeg y mae wedi gwasanaethu'r Cynulliad, yn gyntaf fel y Cynghorydd ar Safonau ac yna fel y Comisiynydd Safonau;

2. O dan adran 1(2) o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, yn penodi Gerard Elias CF yn Gomisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Mesur hwnnw, am gyfnod o chwe blynedd gan ddechrau ar 1 Rhagfyr 2010.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**.........................................**

**15.01**
**Eitem 5: Dadl ar Ddyfodol Darlledu Cymraeg**

**NNDM4583**

**Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);**

**Alun Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr).**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn credu bod S4C annibynnol yn hanfodol ar gyfer dyfodol darlledu cyhoeddus a'r diwydiannau creadigol yng Nghymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**.......................................**

**15.43**
**Eitem 6: Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**NDM4588 Nick Ramsay (Mynwy)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi â phryder bod llawer o broblemau iechyd y cyhoedd yn dod yn fwy amlwg yng Nghymru;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ganolbwyntio adnoddau ar fesurau ataliol, er mwyn cyflawni gwell canlyniadau iechyd y cyhoedd.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 31 | 46 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnydd yn y disgwyliad oes yng Nghymru sy'n ddangosydd allweddol o welliant yn iechyd y cyhoedd;

2. Yn nodi'r heriau sy'n parhau ym maes iechyd y cyhoedd;

3. Yn nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y trywydd iawn i fodloni ymrwymiad Cymru'n Un ynghylch iechyd y cyhoedd drwy'r strategaeth "Ein Dyfodol Iach".

Cymru'n Un:

http://cymru.gov.uk/about/programmeforgovernment/strategy/publications/onewales/?skip=1&lang=cy

Gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, "Ein Dyfodol Iach" drwy'r linc canlynol:

http://cymru.gov.uk/topics/health/ocmo/healthy/?skip=1&lang=cy

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **31** | **0** | **15** | **46** |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi capasiti iechyd yr amgylchedd yng Nghymru er mwyn i wasanaethau iechyd yr amgylchedd gael y màs critigol er mwyn gallu mynd i'r afael yn iawn â phroblemau presennol a phosibl ym maes iechyd y cyhoedd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **44** | **1** | **0** | **45** |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnydd yn y disgwyliad oes yng Nghymru sy'n ddangosydd allweddol o welliant yn iechyd y cyhoedd;

2. Yn nodi'r heriau sy'n parhau ym maes iechyd y cyhoedd;

3. Yn nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y trywydd iawn i fodloni ymrwymiad Cymru'n Un ynghylch iechyd y cyhoedd drwy'r strategaeth "Ein Dyfodol Iach".

4. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi capasiti iechyd yr amgylchedd yng Nghymru er mwyn i wasanaethau

iechyd yr amgylchedd gael y màs critigol er mwyn gallu mynd i'r afael yn iawn â phroblemau presennol a phosibl ym maes iechyd y cyhoedd.

Cymru’n Un:

http://cymru.gov.uk/about/programmeforgovernment/strategy/publications/onewales/?skip=1&lang=cy

Gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, “Ein Dyfodol Iach” drwy’r linc canlynol:

http://cymru.gov.uk/topics/health/ocmo/healthy/?skip=1&lang=cy

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 0 | 9 | 46 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi’i ddiwygio.**

........................................

**16.43**
## Eitem 7: Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**NDM4590 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn mynegi pryder y gallai cyflwyno Glastir arwain at golli parhad gwelliannau amaeth-amgylcheddol a gyflawnwyd gan y cynlluniau Tir Gofal a Tir Cynnal;

2. Yn cydnabod pwysigrwydd Tir Mynydd wrth gynnal hyfywedd ffermio mewn ardaloedd llai ffafriol ac yn mynegi pryder am yr effaith y byddai colli taliadau Tir Mynydd yn ei chael ar ffermwyr sy’n gweithio yn yr ardaloedd hyn;

3. Yn nodi mai’r unig ffordd y cyflawnir y gwelliannau amgylcheddol y mae’r llywodraeth yn dymuno’u cyflawni drwy Glastir yw os yw’r cynllun yn ddeniadol i dirfeddianwyr a bod ffermwyr yn gallu cymryd rhan ynddo; ac

4. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

a) ohirio’r dyddiad y bydd Glastir yn dod i rym;

b) adolygu’r meini prawf ar gyfer gwneud cais a chreu ail gylch o geisiadau fel bo mwy o ffermwyr yn gallu manteisio ar y cynllun; ac

c) pennu targed ar gyfer nifer y ffermwyr sy’n ymuno â’r cynllun.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 1 | 30 | 46 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod yr hyn sydd wedi'i gyflawni gan y cynlluniau amaeth-amgylcheddol presennol;

2. Yn nodi nad yw'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol presennol yn mynd i'r afael â'r heriau yn y dyfodol o ran y newid yn yr hinsawdd, dal carbon a rheoli dŵr, fel y nodir yn Archwiliad Iechyd y Polisi Amaethyddol Cyffredin ac nad oeddent wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â hwy;

3. Yn nodi na fydd Glastir yn llawn weithredol tan 2014 ac yn croesawu'r trefniadau trosiannol a roddwyd yn eu lle ar gyfer Tir Cynnal, Tir Gofal a Thir Mynydd ar gyfer 2012 a 2013.

Gellir defnyddio'r linc canlynol i weld yr archwiliad ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin:

http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2009:030:0016:0016:EN:PDF

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 31 | 0 | 15 | 46 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Cynnwys pwynt 4 newydd ac ail-rifo:

Yn cydnabod y perygl os na fydd llawer yn cymryd rhan yn Glastir y gallai hynny arwain at anghofio am dir yr ucheldir ac y bydd hynny'n arwain at effaith gymdeithasol ac amgylcheddol niweidiol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 1 | 30 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod yr hyn sydd wedi'i gyflawni gan y cynlluniau amaeth-amgylcheddol presennol;

2. Yn nodi nad yw'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol presennol yn mynd i'r afael â'r heriau yn y dyfodol o ran y newid yn yr hinsawdd, dal carbon a rheoli dŵr, fel y nodir yn Archwiliad Iechyd y Polisi Amaethyddol Cyffredin ac nad oeddent wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â hwy;

3. Yn nodi na fydd Glastir yn llawn weithredol tan 2014 ac yn croesawu'r trefniadau trosiannol a roddwyd yn eu lle ar gyfer Tir Cynnal, Tir Gofal a Thir Mynydd ar gyfer 2012 a 2013.

Gellir defnyddio'r linc canlynol i weld yr archwiliad ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin:

http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2009:030:0016:0016:EN:PDF

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **30** | **0** | **15** | **45** |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

........................................

**17.39**
**Cyfnod pleidleisio**

........................................

**17.42**
**Eitem 8: Dadl Fer**

**NDM4589 Paul Davies (Preseli Sir Benfro):**

Gwasanaethau Iechyd yn Sir Benfro

**Daeth y cyfarfod i ben am 18.07.**

........................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mawrth 23 Tachwedd 2010.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**